Canrif Gwynfor: Melancoli, Moderniaeth a Bro Gymraeg

Rhys Evans

Darlith Flynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

CYNNWYS

CYNNWYS **2**
CANRIF GWYNFOR: MELANCOLI, MODERNIAETH A BRO GYMRAEG **3**

CANRIF GWYNFOR: MELANCOLI, MODERNIAETH A BRO GYMRAEG

RHYS EVANS

Gyfeillion, mae'n anrhydedd o'r mwya' cael fy ngwahodd i draddodi darlith flynyddol y Coleg Cymraeg. Gydol ymdaith genedlaethol yr iaith Gymraeg drwy'r ugeinfed ganrif – ymdaith ag iddi nodweddion twf a dirywiad – mae'r sector hwn, y sector addysg uwch, yn un a gafodd ei esgeuluso yn llawer rhy hir. Peintiwyd sloganau dirifedi er mwyn radio a theledu Cymraeg. Talodd eraill bris trwm am y fraint wallgo' o barchus i gael talu trethi yn Gymraeg. Mewn difri calon – meddyliwch am y peth. Ymlafniodd gormod o rieni dros yr hawl pitw ond angenrheidiol i gael addysg Gymraeg. Ond teg dweud mai digon disylw a fu'r ymdrech llawn mor allweddol dros addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Os oes 'na barhad i fod i'r Gymraeg fel iaith hyfyw, iaith a chanddi'r seilwaith ddeallusol angenrheidiol, iaith ag iddi ddyfodol cyffrous gyda'i gwyddonwyr, economegwyr ac, ie, ei haneswyr, yna mae i'r sefydliad hwn le cwbl angenrheidiol ym mhennod nesaf hanes Cymru.

Diolch calon, felly, i'r llywiawdwyr hynny a fu mor ddygn yn eu hymdrechion ac a ddaliodd wrth y weledigaeth er gwaethaf aml i glec a siomedigaethau rhy niferus i'w rhestru. Gall sawl person a mwy nag un blaid hawlio'r clod dyladwy am y ddarpariaeth bresennol. Â Dafydd Glyn Jones, tad bedydd go iawn y Coleg hwn, yn ôl cyn belled â William Salesbury am ysbrydoliaeth a dechreuadau hanes 'y coleg tatws llaeth' fel y'i disgrifiodd mor gofiadwy. Mae eraill wedi hawlio R. J. Derfel fel y symbylydd. Ond os oes yna un person yn haeddu'r clod am wneud yr angenrheidiol a dechrau'r frwydr sefydliadol, brwydr drwy bwyllgor, is-bwyllgor ac adroddiadau dichonoldeb negyddol, yna efallai mai Gwynfor Evans o bosib piau'r clod hwnnw.

Yntau, nôl ym 1951 a roes y mater ar unrhyw fath o agenda'r Gymru fodern gyda chynnig gerbron Llys y Brifysgol – Prifysgol Cymru, hynny yw – gan alw ar i'r sefydliad hwnnw archwilio ffyrdd o sefydlu coleg Cymraeg. Bu'n rhaid aros saith mlynedd arall cyn y gwnaed y penodiad cyntaf i swydd wedi ei dynodi ar gyfer dysgu drwy'r Gymraeg. Bylchog a herciog fu'r ddarpariaeth wedi hynny cyn i'r Coleg hwn weld golau dydd – ac nid, ga' i fentro dweud, cyn pryd. Mae'r hyn dwi newydd ei amlygu yn feicrocosm o'r hyn dwi am siarad amdano mewn ffordd ehangach y pnawn yma. A'r pwnc yw hwn: sef y ffordd y trodd Gwynfor ddigalondid cwbl niwrotig ynghylch dyfodol cenedl fach yn rym aruthrol i newid cenedl a thrwy wneud hynny, achub ei hunan rhag difancoll.

Yr ail beth dwi am ei archwilio heddiw yw hwn: sef y ffaith nad ffenomenon gwbl Gymreig oedd digalondid neu felancoli affwysol gyda'r oes. Roedd cenhedlaeth Gwynfor yn rhan o symudiad llawer ehangach ar gynfas Ewropeaidd a ymestynnai o orllewin Cymru i Rwsia bell. Mae'n bryd, os yw ein hanes cyfoes i wneud unrhyw synnwyr i ni, i ni ddechrau deall lle Cymru yn y byd. Nid ynys fechan, ddelfrydgar oedd Gwynfor – rhyw ddyn da yn torri cwys ecsentrig yn Llangadog. Globaleiddio a'i llawforwyn, Prydaineiddio, a yrrodd lawer iawn o genedlaetholdeb Cymreig. Mae'n baradocs neilltuol ond heb y galanas byd a welwyd rhwng y ddau ryfel, mae'n annhebygol y byddai cenhedlaeth Gwynfor byth wedi ymateb yn y ffordd y gwnaethant i'r argyfwng a ddaeth i'w rhan.

Beth felly am y llwyfan Prydeinig ac Ewropeaidd hwnnw? Y peth cynta' yw hwn. Nid rhyw chwiw, neu 'spasm' deallusol, oedd y teimladau enbyd hynny o wae a welwyd ar draws Ewrop ddiwedd y tridegau. O ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf hyd 1939, datblygodd gwahanol fathau o ymateb niwrotig i gyflwr dynoliaeth yr oedd cenedlaetholdeb Cymreig ond yn un nodwedd ohoni. Barnodd yr hanesydd diwylliannol, John Carey, fod nifer o ddeallusion pwysicaf Ewrop yn casáu'r byd modern i'r fath raddau nes iddynt synied am ymatebion cwbl afiach fel datrysiad i wae cymdeithas. Bathwyd y term *eugenics* gan Francis Galton fel modd o ddileu'r boblach afiach – nifer a epiliai yn ddilywodraeth. Ymunodd Yeats â'r gymdeithas honno hefyd ac roedd Bernard Shaw ac Aldous Huxley hefyd yn gydymdeimladol gyda'i hamcanion. Symbol arall o'r pydredd cymdeithasol yma oedd addysg a'r gred gyfeiliornus y medrai pawb fod yn addysgedig.

'Let all schools be closed at once', taranodd D. H. Lawrence, 'the great mass of humanity should never learn to read or write'.

Aeth John Carey, yn ei lyfr enwog a bwriadol ddadleuol, *The Intellectuals and the Masses*, cyn belled â barnu y gellid tynnu llinell uniongyrchol o elitaeth George Bernard Shaw ac Ezra Pound, i gwlt y goruwch-ddyn Nitezscheaidd y cafwyd ei ladmerydd mwyaf gwyrdroëdig yn nelw Adolf Hitler. Bellach, mae yna ffordd hanesyddol newydd o weld sut y syniai pobl am eu byd chwilfriw, ac mae'r ffordd honno yn awgrymu nad oedd meddwl am ddirywiad o reidrwydd yn gyfystyr â ffasgiaeth; doedd meddwl am ddihoeni ddim o reidrwydd yn amhoblogaidd. Ym mhob agwedd o drafodaeth gyhoeddus, boed wleidyddol neu newyddiadurol, doedd y cysyniad fod popeth ar farw a gwareiddiad yn dihoeni ddim yn bell o'r wyneb. Nid barn eithafol, adweithiol oedd hon; nid byd-olwg a gyfyngid i'r *avant garde* oedd hon. I'r genhedlaeth honno a anwyd wedi 1914, roedd yr ofn bod dinistr ar y gorwel yn un cwbl a hollbresennol. Roedd bod yn forbid yn safbwynt hollol resymegol, felly.

Trawsnewidiwyd y ffordd yr ystyrid y byd hefyd gan wyddoniaeth. Darniwyd y syniadau cyfforddus, cysurlon ynghylch gwyddoniaeth a ymestynnai nôl i Newton; datblygodd geneteg a'r syniad bod etifeddiaeth yn gallu bod yn falltod; awgrymwyd a phoblogeiddiwyd syniadau seicolegwyr bod y dyn modern yn dryblith o emosiynau cymysg; law-yn-llaw gydag ymdrechion gwyddonwyr i gynnig esboniad i'r amgylchedd materol, daeth hi'n amlwg bod ganddyn nhw'r gallu i droi'r byd yn sarn hefyd. Ac uwchlaw popeth roedd datblygiad meddygaeth, a'r gallu a gynigiai'r wyddor honno i gynnig set o drosiadau ar gyfer ceisio esbonio'r byd blinderus. Nid cyd-ddigwyddiad oedd hi i Sigmund Freud ei hun droi o archwilio cleifion i archwilio cymdeithas. Y llinyn cyswllt yn yr ymdrechion meddygol yma oedd ceisio cynnig rhyw fath o ateb i'r cwestiwn, pam fod cenhedloedd byd mor afiach. O Freud i Ernest Jones, Aldous Huxley a H. G. Wells, yr un oedd y nod gan ddod yn hynod boblogaidd fel testun trafodaeth gyhoeddus.

Beth am Gwynfor Evans felly? Ai damwain wyrthiol genedlaethol, chwedl ei gefnogwyr oedd yntau? Neu, a oedd ef hefyd, ac yntau'n ŵr ifanc yn ei ugeiniau, yn cyfranogi o'r tueddiadau yma? Wel, gadewch i ni yn gyntaf ystyried lle'r y'n ni. Gwta ddeg milltir sydd yn gwahanu'r maes hwn yn Llandŵ a'r Barri, ond mae'r gwahaniaethau'n amlwg i bawb eu gweld – o amlinelliad y tir i hyder *Country Set* cynyddol ddwyieithog y Bontfaen. Saith degawd yn ôl, fodd bynnag, man y man bod Llandŵ a'r Barri yn perthyn i fydoedd gwahanol. Petaech chi wedi cribinio pob mantolen o weithgarwch diwydiannol ar drothwy'r ugeinfed ganrif, go brin y byddech chi wedi dod ar draws lle rhyfeddach.

Y Barri oedd 'Chicago Cymru', tref a grëwyd o ddim yn dilyn penderfyniad cwbl wallgo' ond eofn David Davies, Llandinam, i agor doc yno. Torri monopoli porthladd Caerdydd a'r Buteiaid oedd ei nod ac fe lwyddodd y tu hwnt i hyd yn oed derfynau ei weledigaethau yntau. O fewn dau ddegawd, sef rhwng 1881 a 1911, trawsnewidiwyd tref fechan glan môr a chanddi boblogaeth o 500 i fod yn El Dorado a ddenodd 33,000 o bobl. Ac nid twf poblogaeth oedd unig nodwedd y Barri newydd. Roedd yna brofiad Cymreig cwbl unigryw i'w weld yn y Barri. Clustfeiniwch ar acen y Barri drwy wrando ar Derek Brockway – mab enwoca'r dref – ochr yn ochr â Gwynfor. Yr hyn a gewch chi yw acen a chanddi dinc llawer llai Cymraeg a Chymreig nag acenion y rhannau hynny o'r Cymoedd, fel Aberdâr a Merthyr a ddiwydiannwyd dipyn cynt yn rhuthr economaidd de Cymru.

O fewn y dref, roedd 'na frwydr ddiwylliannol grasboeth ond anghyfartal. Un garfan yn unig a fyddai'n ennill y frwydr hon maes o law. Ar y naill law, roedd y diwylliant proletaraidd, sef diwylliant y gweithwyr. Diwylliant oedd hwn wedi ei seilio ar newydd-bethau: *jazz*, tai pictiwrs a thafarnau. Ar y llaw arall, roedd yna ddiwylliant Cymraeg a geisiodd yn bur aflwyddiannus i fwrw gwreiddiau yn naear y Barri. Roed tad-cu Gwynfor, Ben Evans, yn un o brif symbylwyr y byd-olwg yma. Gwnaeth yntau bopeth o fewn ei allu er mwyn hyrwyddo achosion Dirwest a Chymru Fydd – yr achosion parchus hynny, chwedl un gohebydd yn y *Barry Herald*, 'that tended to uplift his fellow beings'. Yn wir, gwnaeth ei dad-cu mwy nag odid neb arall i gynnal achos yr iaith yn y Barri. Ben Evans oedd, fe haerid, arweinydd 'Welsh Nationalists' y dref – gŵr a fethodd o drwch blewyn i wneud y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn ysgolion y dref.

Yn y bôn, felly, roedd Gwynfor yn byw mewn *ghetto* Cymraeg – cymuned fregus a ddibynnai fwy ar rwydweithiau o siaradwyr Cymraeg nag ar gymuned Gymraeg organig heb ffin rhwng tir ac iaith. Ar sawl ystyr, mae'n rhagfynegi sefyllfa'r Cymry Cymraeg hynny a ddaeth i'r de-ddwyrain chwe degawd yn ddiweddarach gyda thwf Caerdydd fel Prif Ddinas. Af i ddim ar ôl y gymhariaeth i'w therfyn, ond mae'n ddi-ddadl i brofiad ghetto'r Barri wneud Gwynfor yn llwyr ymwybodol bod ieithoedd yn marw. Er i Gwynfor oreuro'r ffaith iddo golli ei Gymraeg, mae hefyd yn ddi-ddadl iddo dystio yn ddyddiol i'r ffaith na fedrai'r Gymraeg oroesi mewn cyd-destun dinesig heb gefnogaeth wladol.

Pam a sut fod hyn i gyd yn berthnasol i sefyllfa Gwynfor a'r tridegau? Wel, ac yntau'n laslanc, roedd Gwynfor wedi gweld, ac yn dal i weld, un math penodol o farwolaeth drosiadol, sef marwolaeth iaith. Dyfnhawyd y teimladau yma gan ei berthynas gyda Llangadog, bro mebyd ei dad-cu a'i fam-gu. Yn grwt, âi Gwynfor yno ar wyliau gan dreulio amser gyda Walter James, brawd ei fam-gu. Ddegawdau yn ddiweddarach, roedd Gwynfor yn telynegu ynghylch y dyddiau yma – dyddiau'r teithiau beic, y pysgota a'r casglu merlod. Roedd yr atgofion cyfansawdd hynny'n aruthrol bwysig i Gwynfor ynghyd ag effaith y ffigwr a ddylanwadodd fwy ar Gwynfor nag odid yr un deallusyn arall yng Nghymru, sef O. M. Edwards. Ef, O. M. Edwards, gŵr sy'n dal i ddisgwyl cofiannydd safonol gyda phob parch i W. J. Gruffydd, a fowldiodd lawer o deithi meddwl Gwynfor.

Os gwelodd O. M. Edwards y byd drwy brism Llanuwchllyn a Meirionnydd, yna mae'r un peth yn wir am Gwynfor, Llangadog a Sir Gaerfyrddin. Roedd ideoleg delynegol y wlad yn berffaith i Gwynfor fel gwrthglawdd, ond peidied neb â meddwl mai dehongliad ecsentrig o gymdeithas oedd hon. Porwch yng ngweithiau T. H. Parry-Williams ac mae'r un teimlad ynghylch diwydiannaeth yno. Yn Lloegr hefyd, ceid cwlt y gwladwr. Gwelid ei ddylanwad ar ffigyrau mor amrywiol â symudiad *Arts and Crafts* William Morris, Eric Gill a'r Ffabiaid cynnar. Yn Ffrainc, ymserchodd Gaugin ac ysgol Pont-Aven yn y cwlt, tra mawrygodd Yeats a Synge symlder a doethineb dilychwin gwerin Iwerddon. Dyma ideoleg berffaith i fachgen sensitif o'r Barri gydio ynddi. Mewn cymhariaeth â'r Barri, roedd Llangadog yn symbol o berffeithrwydd: glendid diwylliannol, unoliaeth gymdeithasol a bro uniaith Gymraeg. Roedd Llangadog yn cynrychioli bywyd i Gwynfor; marwolaeth, at ei gilydd, yn unig a geid yn ei filltir sgwâr ym Mro Morgannwg.

Dwi'n pwysleisio 'at ei gilydd' oherwydd, tueddai Gwynfor i dybio bod rhai aelodau o'r dosbarth gweithiol yn werth mwy na'r lleill. Yng nghapel Tabernacl y Barri, capel y teulu, y byddai rhai o'r '*trimmers*' neu'r lefelwyr glo yn addoli. Cydiodd Gwynfor yn nelfryd y dynion yma fel prawf bod modd byw ynghanol llwch a dwndwr un o borthladdoedd prysura'r byd. O bersbectif Gwynfor, doedd dim oll yn gyffredin rhwng y gwŷr hyn a phroletariat di-foes y cymoedd. Dyma, o safbwynt Gwynfor, oedd y werin Gymreig – diwyd, duwiol a Chymraeg ei hiaith. Yma eto, mae'r gymhariaeth rhwng Gwynfor ac O. M. Edwards yn drawiadol. Fel y soniais uchod, mawrygodd y ddau eu pentrefi delfrydol drwy gyfrwng y ddwy lan – Llanuwchllyn a Llangadog. Ac o fewn y pentrefi hynny, ceir telynegu ynghylch math penodol, stereoteip os mynnwch chi, a fynychai'r capel. Yn achos O. M. Edwards, addolwyr yr Hen Gapel yw'r ddelfryd o'r math o bobl y gobeithiai y medrai ei Gymru ef ei chreu. Maent hwy yn byw ar blaned gwbl wahanol i Gymry Phariseaidd a rhagrithiol ei gyfoeswr, Daniel Owen. Yn achos Gwynfor ac O. M., delfryd i achub y Gymru ddiwydiannol rhag marw oeddynt ac ydynt.

Nid dyma oedd diwedd perthynas anodd Gwynfor gyda daearyddiaeth Cymru – perthynas a osodwyd ar yr un echel honno o fywyd a marwolaeth, Cymru Gymraeg a di-Gymraeg, y Gymru ddiwydiannol, broletaraidd a'r Gymru wledig, werinol. Yn wir, mae'n un o eironïau mawr personoliaeth Gwynfor fod cenedlaetholwr mwya'r ugeinfed ganrif mor ddibris o rannau helaeth o'r genedl honno a garai mor gwbl angerddol. Dyma ŵr cofier, a ymdrechodd yn ddiflino gyda dyrnaid o genedlaetholwyr eraill i sicrhau bod Sir Fynwy yn rhan lawn o Gymru. Gwynfor a sicrhaodd y byddai Plaid Cymru yn symud ei phencadlys o Gaernarfon i Gaerdydd. Dychmygwch yr ymateb pe byddai wedi argymell hynny heddiw. Roedd Gwynfor hefyd yn fwy blaenllaw nag odid neb i sicrhau hawl foesol Caerdydd i brif-ddinasyddiaeth.

Ond er mai creu cenedl oedd y nod , roedd realiti'r genedl a'r hyn a deimlai yn bur wahanol. Yn wastadol, deuai Gwynfor yn ôl i ddeuoliaeth bywyd-marwolaeth, deuoliaeth melancoli-gobaith, y Gymru goll a'r Gymru go iawn. Nid yn Llangadog mae'r unig dystiolaeth o hyn ychwaith. Mae Gwynfor wedi sôn droeon am ei benderfyniad cwbl allweddol yn llanc dwy ar bymtheg i sefyll arholiad Cymraeg y 'Senior CWB' yn hytrach na Ffrangeg. O dan ei athro ifanc brwdfrydig, Gwynallt Evans, fe gafodd flas aruthrol ar weithiau llenorion newydd modern fel Kate Roberts a D. J. Williams; daeth yn gyfarwydd gyda thrysorau'r canon hefyd fel y Mabinogi ac Ellis Wynne. Yn ogystal, daeth o dan ddylanwad y mwyaf, efallai, o haneswyr Cymru, David Williams. Yn ogystal, dechreuodd weld Cymru fel unoliaeth Gristnogol, cymuned y medrid ei geni neu ei lladd.

Yn llythrennol, byddai'n bloeddio a mynd i berlewyg wrth ganu rhai o'r hen ffefrynnau – 'Ar Lan Iorddonen Ddofn' neu 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'. Ac yma, wrth dramwyo Bro Morgannwg, dechreuodd y cwbl wneud synnwyr, dechreuodd greu cyfanwaith. Cerddodd 'ugeiniau o weithiau' dros rai rhannau o'r Fro hon er mwyn dianc rhag bydolrwydd y Barri. 'Ni bu lle mwy di-draddodiad erioed', oedd ei ddyfarniad damniol flynyddoedd yn ddiweddarach ynghylch ei dref enedigol.

Mae gynnon ni dystiolaeth glir, felly, i Gwynfor anwylo metafforau marwolaeth a melancoli yng nghyd-destun y Gymru ddiwydiannol. Yr ail reswm pam iddo fod yn rhan o ymateb traws-Ewropeaidd i argyfwng ei oes oedd ymwybyddiaeth o farwolaeth ei hun yng nghyd-destun rhyfel. Mae'n swnio'n beth cwbl amlwg i'w ddweud ond cenhedlaeth Gwynfor, y genhedlaeth a ddaeth i oed wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, oedd y genhedlaeth gyntaf i wybod y gellid strwythuro rhyfel ar raddfa ddiwydiannol – a hynny'n llythrennol. Gyda thwf prosesau diwydiannol, roedd hi bellach yn bosib lladd ar raddfa epig drwy gymorth y *Zeppelin*, llongau tanfor a gynau newydd *Gatling* a *Smith and Wesson* – i enwi ond rhai.

Os oedd yna un dref yng Nghymru yn ymwybodol o'r rhyfel, yna tref y Barri oedd honno. Roedd hi, i bob pwrpas, yn dref a filitareiddiwyd yn llwyr, tref garsiwn os mynnwch chi. Ac nid milwyr o Brydain yn unig a geid yno. Cartrefwyd miloedd o filwyr a ffoaduriaid o wlad Belg yno hefyd. Erbyn diwedd y rhyfel, byddai canran uwch o fechgyn y Barri wedi mynd i'r fyddin nag unrhyw dref arall yn ne Cymru. Yn ei hunangofiant, mae Gwynfor yn dwyn i gof y profiad o weld 'colofnau hir o filwyr yn martsio i sŵn herfeiddiol y seindorf i lawr y rhiw ganllath o'r ysgol i fyrddio llong a oedd i'w dwyn i Ffrainc'.

Nid arbedwyd yr un rhan o gymdeithas y Barri rhag yr ymwybyddiaeth hon o gymdeithas yn cael ei thrawsnewid. Cymerwch enghraifft Capel Tabernacl y Barri. Ymfalchïai'r aelodau yng ngwrhydri'r 'nifer lliosog' o'u plith a oedd bellach ar eu ffordd i 'Ffrainc, Salonica, Dwyrain Aifft a'r Aipht'. Canodd tad Gwynfor, Dan, cystal canwr ag oedd yn gyfalafwr, y 'Drum Major' gyda'r milwyr yn serenadu'r gynulleidfa trwy ganu'r 'Soldiers' Chorus'. Erbyn 1918, roedd y Rhyfel Mawr wedi cael effaith barhaol ar Gwynfor a phob plentyn yn y Barri. Pan glywyd am y cadoediad ar y Sul glawog hwnnw ym mis Tachwedd dathlodd y dref gyfan, 'almost every house displaying bunting … the whole day being one continued demonstration of rejoicing'.

Roedd y seiliau wedi eu gosod, felly, ar gyfer heddychiaeth absoliwt Gwynfor, er nad oedd dim byd yn anochel gydag ymwneud Gwynfor â'r mudiad pasiffistaidd – efallai'r mwyaf pesimistaidd o fudiadau pruddglwyfus y tridegau. Plentyn dadrithiad oedd Gwynfor. Roedd cytundebau Versailles ym 1919 ac ymdrechion Lloyd George, yn enwedig, i fod wedi achub ei genhedlaeth yntau rhag dinistr y byd. Symbol mwyaf diriaethol yr ymdrechion yma i osgoi rhyfel arall oedd bodolaeth Cynghrair y Cenhedloedd, neu'r *League of Nations*. Ymaelododd Gwynfor fel crwt â'r Undeb a sefydlwyd i gefnogi ei amcanion. O dan ddylanwad David Davies, Llandinam, a'r Davies arall hwnnw, Gwilym Davies, datblygodd yr 'LNU' i fod yn un o fudiadau mwyaf dylanwadol diwedd y dauddegau a dechrau'r tridegau.

Mae'r hanes bron a bod yn angof bellach, ond yn y Barri a Chymru benbaladr, meddai'r LNU ar ganghennau dirifedi ac ni fu pall ar ei hymdrechion i efengylu – a hynny yn ffigurol ac yn llythrennol yn achos rhywun fel Gwynfor. Wrth i'r hinsawdd ryngwladol dywyllu, fe drefnodd Cynghrair y Cenhedloedd bleidlais

heddwch a bwriodd dros un filiwn ar ddeg o bobl Prydain – tua 38 y cant o'r boblogaeth – bleidlais o blaid heddwch a chyd-ddiogelwch. Golygodd hyn i'r LNU anfon tua hanner miliwn o wirfoddolwyr allan i'r caeau a'r priffyrdd er mwyn cael pleidlais drom o blaid y cynnig 'ie'.

Aeth Gwynfor cyn belled â Genefa i weld Cynghrair y Cenhedloedd wrth ei waith. Roedd yn brofiad rhyfeddol o gyffrous i fachgen dwy ar bymtheg ac mae'n haeddu cael ei gyfri fel un o brofiadau pwysicaf bywyd Gwynfor, er mai siom a brofodd. Yn hytrach nag angerdd ynghylch tynged ardal fel y Saar – un o'r mannau hynny a ddaeth yn faes y gad o fewn degawd – tystiodd yn uniongyrchol i'r ffaith bod ymdrechion Versailles wedi methu. 'Members', meddai, 'were continually walking to and fro, while the press-men seemed to vie with each other in making rustling noises with sheets of paper'.

Roedd geiriau Gwynfor – a hynny cyn y bleidlais heddwch – yn rhai proffwydol. Pennaf arwyddocâd y digwyddiadau hyn o safbwynt Gwynfor oedd iddo ddinistrio ei ffydd yng ngallu'r 'LNU' i gadw'r heddwch ac aeth yntau i gyfeiriad pasiffistiaeth absoliwt – hynny yw, y gred na cheid byth unrhyw gyfiawnhad dros unrhyw ryfel waeth bynnag yr amgylchiadau. Ym 1934, trawsnewidiwyd y ddadl heddychol gyda dyfodiad yr Undeb Llw Heddwch, neu'r *Peace Pledge Union*, i'r maes. Dyma gorff – neilltuol o Seisnig – a roes fynegiant creadigol i syniadaeth forbid y tridegau; trwy wneud hynny trawsnewidiwyd gwendid cymharol heddychiaeth a, maes o law, Plaid Cymru hefyd.

Ym mis Hydref 1934, ysgrifennodd canon Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain, y Parchedig Dick Sheppard, at y wasg gan ddatgan ei fod yn argyhoeddedig bod rhyfel yn drosedd 'yn erbyn y ddynoliaeth'. Galwodd ar y sawl a gytunodd gydag ef i anfon cerdyn post ato gan ddatgan eu bod hwythau hefyd yn dilorni rhyfel. Tri phapur newydd yn unig a gyhoeddodd ei lythyr ond roedd yr ymateb yn ddim llai na gwyrthiol. O fewn y flwyddyn, roedd yntau wedi derbyn can mil o gardiau post ac ni fu pall ar y llwon newydd – ar gyfartaledd, pedwar cant bob dydd. Dyma eni yr Undeb Llw Heddwch neu'r *Peace Pledge Union*.

Digon amwys oedd amcanion strategol y PPU a digon eclectig oedd ei aelodaeth hefyd. Denwyd rhai o sêr deallusol Lloegr – Vera Brittain, Rose Macaulay, Eric Gill, Bertrand Russell. Roedd nifer o'r rhain yn anffyddwyr ond llwyddwyd i ddenu cefnogaeth nifer o Gristnogion mwyaf blaenllaw y tridegau – Leslie Weatherhead, Donald Soper, a'r amlycaf yma yng Nghymru, George M. Ll. Davies. Yn y maes gwleidyddol, daeth arweinydd y Blaid Lafur, George Lansbury, yn aelod ohono. Yn y diwedd fe brofodd y seiliau'n rhy simsan a chwalodd yr Undeb i raddau helaeth wrth i'r rhyfel agosáu. Er hynny, y llinyn arian a unai'r unigolion anghymarus yma oedd y gred bod difodiant yn rhywbeth real iawn.

Dyma droi ysfa forbid yn symudiad gwleidyddol a chynigiodd Gwynfor ymateb penodol Gymreig i gwestiwn heddychiaeth. Cynigiodd yr ateb hwnnw i Blaid Cymru – plaid na fynnai, o dan ddylanwad Saunders Lewis, wneud dim oll gyda'r hyn a ystyriai yntau fel syniadau'r chwith Seisnig. Ond nid ildiodd Gwynfor. Roedd ganddo ddau bwynt canolog: y cyntaf oedd bod 'rhyfel mawr yn nesáu gyda chyflymdra di-galonogol'; ail ben ei bregeth oedd mai rhyfel 'i ddinistrio gwareiddiad' fyddai'r nesaf gyda'r 'awyrblan' yn arllwys dinistr. Yr ateb, felly, oedd pasiffistiaeth bur, digon i orfodi gelynion Lloegr i sylweddoli nad oedd Cymru yn rhan ohoni.

Ym 1938, sefydlwyd Heddychwyr Cymru fel adain Gymreig a Chymraeg o'r PPU, gyda George M. Ll. Davies, eilun Gwynfor, yn llywydd arni. Y nod, fel y'i dadlennwyd yn ei maniffesto, oedd 'ymwrthod â rhyfel a pheidio byth â phledio na goddef un arall'. Bedwar mis yn ddiweddarach, pleidleisiodd Plaid Cymru dros arddel heddychiaeth fel polisi swyddogol ac na fyddai hi, fel plaid, yn defnyddio trais fel arf yn y frwydr dros ymreolaeth. Go brin fod angen dweud beth oedd goblygiadau hyn o safbwynt Cymreig – byddai Plaid Cymru, plaid a ysbrydolwyd gan ysbryd Gwrthryfel Iwerddon 1916, yn gorfod meddwl o'r newydd am ei thactegau cenedlaetholgar. Drwy wneud hynny, sicrhaodd Gwynfor lid a gwenwyn Saunders Lewis am weddill ei oes.

O safbwynt gwleidyddiaeth Cymru a gwleidyddiaeth Prydain, roedd yna ddatblygiad llawn mor arwyddocaol. Hyd yn oed ar ôl dichell Munich, gyda nifer o heddychwyr yn gadael rhengoedd y PPU, glynodd Plaid Cymru at ei heddychiaeth. Golygodd hyn i Blaid Cymru ddyfod yn fwy ynysig nag y buodd erioed ar y sbectrwm gwleidyddol. Nawr, gan gymaint ddyfnder pesimistiaeth ei harweinyddiaeth newydd ynghylch dinistr yr oes, dim ond heddychiaeth a chariad Cristnogol a fedrai achub Cymru.

Y wedd olaf ar bersonoliaeth Gwynfor a barodd iddo fod mor barod i goleddu syniadau ffasiynol-forbid y tridegau yw'r hunan, neu ei bersonoliaeth. Bu salwch yn gydymaith cyson i Gwynfor gydol y daith drwy ysgol Gladstone Road. I nifer o blant y Barri, roedd y clefyd coch, neu ddifftheria, yn broblem gyffredin – yn bennaf oherwydd cyflwr y system garthffosiaeth. Mae adroddiadau am yr ysgol yn sôn am 'vast amount of sickness'. Trawyd Gwynfor yn galed gan yr haint pan yn bedair ac wyth oed. Ar un achlysur, daeth ei Wncwl Dudley i mewn i'w ystafell gyda'r meddyg a chlywodd Gwynfor y gair iasol hwnnw 'crisis' yn cael ei yngan. Gyda chryn reswm, credai Gwynfor ei fod yn marw. Brithgofion plentyn bach yw'r rhain ond roedd iddynt eu harwyddocâd arhosol. Hyd ei arddegau, llethwyd Gwynfor gan wendid corfforol a byrder. Methai'n deg â bwrw ymaith ei flinder na 'chwaith ei bryder ei fod yn rhy fyr. Yn ystod y dauddegau, câi ei blagio gan hunllefau morbid a melodramataidd; mewn adlais o'r ffordd y byddai fel oedolyn yn ysgrifennu am Gymru, câi hunllefau lle deuai o fewn trwch blewyn i farw yn amlach na pheidio. Yna, byddai'n deffro gan sylweddoli ei fod wedi ei achub.

Ac ar y cysyniad hwnnw o achub ac achubiaeth dwi am orffen y prynhawn yma. Sut mae esbonio paradocs hanfodol Gwynfor? Sut mae esbonio pam i wleidydd mor hanfodol besimistaidd, gwleidydd y gellir ei osod yn dwt oddi mewn i brif ffrwd gwleidyddiaeth forbid y tridegau, gynnig gwleidyddiaeth mor olau? Gwleidyddiaeth wallgo' o naïf, y byddai ei feirniaid yn dadlau. Wel, dwi'n tybio bod yna ddau reswm.

Y cyntaf yw pechod, neu ei ddiffyg ym mherson Gwynfor. Er mai Catholig oedd Saunders Lewis, mae'r ymwybyddiaeth o bechod a oedd yn allweddol i'r feirniadaeth lenyddol yno hefyd yn ei wleidyddiaeth. Serch ei ddisgleirdeb fel meddyliwr gwleidyddol, mae'n wleidyddiaeth gyfan gwbl anymarferol. Does dim gobaith o gwbl yn ei raglen wleidyddol. Perthyn i draddodiad Cristnogol pur wahanol a wnâi Gwynfor. Traddodiad yr Annibynwyr oedd hwnnw, traddodiad radical Gwilym Hiraethog, Thomas Rees, ac uwchlaw popeth, traddodiad optimistaidd.

Yr ail reswm sy'n esbonio sut y bu i Gwynfor ddringo allan o bwll digalondid y tridegau yw'r traddodiad o waredwr cenedlaethol. Credai Gwynfor yn gwbl ddiysgog ei fod wedi cael ei eni i achub cenedl. Pe cynhelid cystadleuaeth ar gyfer enwebu gwleidydd Prydeinig mwyaf anghonfensiynol yr ugeinfed ganrif, yna Gwynfor fyddai'n ei hennill hi. Dyma o bosib y gwleidydd a lwyddodd i gyfannu'r rhwyg deallusol rhwng optimistiaeth a phesimistiaeth yn haws na'r un gwleidydd arall y gwn amdano. Hyd yn oed pan ystyriodd ladd ei hunan yn llwch adladd Refferendwm 1979, cynigiai marwolaeth ei hun obaith. Trwy aberthu ei hunan, gobeithiai greu cenhedlaeth newydd o Gymry. Mae Gwynfor yn haeddu ei ystyried yn un o wleidyddion pwysicaf stori Prydain, ond go brin y gellid ei ystyried yn un o'r rhai mwyaf meddylgar. Ni threuliodd Gwynfor nemor ddim tensiwn yn archwilio'r hollt yma rhwng gobaith ac anobaith, tywyllwch a goleuni. Y peth pwysig, o'i safbwynt yntau, oedd iddo sicrhau achubiaeth emosiynol rhag tryblith y Barri. Pan ofynnwyd iddo nôl ym 1984 pam ei fod yn genedlaetholwr, cynigodd ateb syml: 'Most people will laugh at it as being in their eyes sentimental slush. Nevertheless, for me it is basic. I love Wales'.

Gwir y gair, ac mae'r gwaddol hwnnw a wreiddiwyd ym mhridd digalondid yn parhau – er gwell neu er gwaeth. Bydded i'r drafodaeth hefyd barhau a'n cefnogaeth ninnau i'r Coleg Cymraeg.

Diolch o galon i chi am eich gwrandawiad caredig.

Canrif Gwynfor: Melancoli, Moderniaeth a Bro Gymraeg

Rhys Evans

Darlith Flynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

Cyhoeddwyd: Medi 2012

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Celfwaith: Neil Angove Cyf.
Ebost: tina@neilangove.ltd.uk

ISBN 978-0-9572768-6-4

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd: Yr Athro R. Merfyn Jones
Prif Weithredwr: Dr Ioan Matthews

Ffôn: 0844 800 7375
Ebost: gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk